

Annwyl Ddysgwr,

Mae wythnos y canlyniadau wedi cyrraedd. Bydd dy waith caled a dy ddyfalbarhad wrth ddygymod â dychwelyd i arholiadau a thrafferthion hynod anodd a digynsail y pandemig wedi dy baratoi di'n dda ar gyfer pa bynnag ddewisiadau y byddi di'n eu gwneud ar gyfer dy gamau nesaf, boed hynny'n gwrs israddedig, prentisiaeth, neu gyflogaeth.

Rydyn ni'n gwybod efallai bod gen ti gwestiynau am dy opsiynau ar ddiwrnod y canlyniadau ac am y broses Glirio.

Dyma ambell beth yr hofffen ni i ti eu cofio:

- Eleni rydyn ni wedi dychwelyd i arholiadau'r haf, gyda phob myfyriwr yn cael eu hasesu ar yr un sail. Bydd dy radd yn cael ei phenderfynu ar sail dy waith di'n unig.
- Paid â phoeni os nad wyt ti'n cael y graddau roeddet ti wedi disgwyl eu cael. Mae hyn yn digwydd yn aml iawn. Yn 2019 dim ond 21% o'r ymgeiswyr a gafodd eu derbyn i brifysgol a lwyddodd i gael y graddau roedden nhw wedi disgwyl eu cael neu'n well, ond fe gafodd 86% o bobl ifanc yn y DU a wnaeth gais i UCAS le mewn lleoliad Addysg Bellach.
- Roedd prifysgolion yn deall sut fyddai graddau'n edrych ar y cyfan eleni ac fe wnaethon nhw ystyried hyn wrth wneud cynigion. Dyw hi ddim yn addas cymharu canlyniadau eleni gyda chanlyniadau 2021, am fod y trefniadau asesu'n wahanol.
- Yn 2019, pan gafodd arholiadau eu cynnal ddiwethaf, cafodd tua thri chwarter o ymgeiswyr 18 oed y DU le yn eu lleoliad dewis cyntaf. Ar ddiwrnod canlyniadau eleni, mae UCAS unwaith eto'n disgwyl y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn sicrhau eu lle yn eu dewis cyntaf.
- Mae gen ti lawer o ddewis o ran dy gam nesaf, boed hynny'n radd israddedig neu'n brentisiaeth. Mae mwy o bobl ifanc 18 oed ymhlith y boblogaeth eleni, a mwy yn gwneud cais i addysg uwch hefyd, ond mae llawer o leoedd o hyd mewn addysg uwch ac mae prentisiaethau ar gael gyda chyflogwyr gwych. Mae dros 90 y cant o ymgeiswyr eleni yn hapus gyda'r cynigion maen nhw wedi'u cael. A dweud y gwir, mae bron i 300,000 o bobl ifanc 18 oed yn y DU wedi cael cynnig pendant, cynnydd o 7,000 ers y llynedd a'r uchaf erioed i gael ei gofnodi – sy'n golygu bod mwy o ymgeiswyr mewn sefyllfa dda i sicrhau lle ar y cwrs sydd orau ganddyn nhw nag erioed o'r blaen.
- Dyw mynediad i'r brifysgol ddim bob amser yn ymwneud â graddau'n unig. Wrth benderfynu p'un ai cynnig lle neu dderbyn myfyriwr, mae prifysgolion ar y cyfan yn edrych ar yr amrywiaeth lawn o wybodaeth sydd o fewn cais UCAS, gan gynnwys y datganiad personol a'r geirda.
- Os na chei di'r graddau rwyf ti eu hangen ar gyfer dy ddewis cyntaf, efallai y byddi di'n dal i gael dy dderbyn gan y brifysgol o dy ddewis, er enghraifft, os wyt ti'n cael gradd is na dy gynnig.

- Os na chei di le yn dy ddewis cyntaf neu dy ail ddewis, bydd llawer o ddewis ar gael trwy'r broses Glirio gyda thua 30,000 o gyrsiau ar gael mewn amrywiaeth eang o brifysgolion a cholegau yn ogystal â phrentisiaethau gyda chyflogwyr. Mae UCAS yma i dy gefnogi di gyda dy ddewisiadau drwy'r broses Glirio. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i ti feddwl cyn diwrnod canlyniadau am yr hyn allet ti ei wneud os nad wyt ti'n cael y canlyniadau roeddet ti wedi gobeithio eu cael, os byddi di'n gwneud yn well nag oeddet ti'n ei ddisgwyl, neu'n newid dy feddwl am beth rwyd ti am ei wneud. Gelli di roi dy hun yn y sefyllfa gryfaf bosibl drwy feddwl ymlaen a llunio Cynllun B.

Rydyn ni'n hyderus, gyda'r gefnogaeth gywir, y byddi di'n parhau i godi uwchlaw unrhyw rwystrau sydd yn dy ffordd er mwyn symud ymlaen i dy gam nesaf.

Os hoffet ti wybod mwy, beth am wrando ar [bodlediadau 'Clearing Choices' UCAS](#) [cynnwys Saesneg] am bob peth yn ymwneud â diwrnod canlyniadau, a sut i gymryd rheolaeth o dy ddyfodol. Mae modd i ti weld dy opsiynau ar Hwb UCAS hefyd. I gael rhagor o wybodaeth am farcio a graddio eleni, cymer olwg ar [flogiau Cymwysterau Cymru](#) a'r [dudalen we ar sut cafodd cymwysterau eu dyfarnu](#). Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael [ar y dudalen we ar gyfer Dysgwyr, Rhieni a Gofalwyr](#) hefyd.

Yn gywir



Philip Blaker  
Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru



Clare Marchant  
Prif Weithredwr, UCAS